CYNGOR

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 a.m. ddydd Iau 10 Gorffennaf 2025 yn Neuadd Vivian, Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans CB (Is-Ganghellor)
John Edge
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb
Iwan Thomas
Deris Williams

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Richard Bills
Gwyneira Davies
Yr Athro Kyle Erickson
Dr Deborah Hughes
Katrin Shaw
Jennifer Taylor

**Hefyd yn bresennol:**
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cynghorau
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Colegau Cyfansoddol
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Dr Chris Marshall, Prif Swyddog Staff
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Yr Athro Mirjam Plantinga Pro Is-Ganghellor (Addysg)
Debra Williams, PIG (Cysylltiadau Masnachol a Busnes)
Catrin Beard, Cyfieithydd
Margaret Williams, Ysgrifennydd

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.36<br>Ymddiheuriadau | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Geraint Evans, Yr Athro Tracy Cruickshank, Rowland Jones, Geraint Roberts, Yr Athro Liz Silberry ac Emlyn Schiavone. |
| 25.37<br>Datgan Buddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (CJO356).<br><br>Nododd Stuart Robb ei ddatganiad fel ymddiriedolwr UWRET mewn perthynas ag eitem gyllid PC. |
| 25.38<br>Penodi Is-Gadeirydd | CYMERADWYODD y Cyngor benodiad Tim Llywelyn yn Is-Gadeirydd o 1 Gorffennaf 2025 i 31 Gorffennaf 2026 (JCO360), gan olynu Justin Albert. |
| 25.39<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad y Cadeirydd (JCO357).<br><br>Adroddodd y Cadeirydd y byddai Justin Albert yn ymddeol fel aelod o Gynghorau PC a PCYDDS ar ddiwedd y mis. Dymunodd yn dda iddo ar ran y ddau Gyngor a diolchodd iddo am ei gyfraniad.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd fod Catrin Beard yn mynychu ei chyfarfod olaf fel cyfieithydd cyn ei hymddeoliad yn yr haf. Dymunodd yn dda iddi a diolchodd iddi am ei gwaith rhagorol dros y blynyddoedd. Byddai Lynwen Davies yn ymgymryd â dyletswyddau cyfieithydd o Fedi 2025.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd fod y CUC wedi dechrau adolygiad mawr o'i Chod Llywodraethu Addysg Uwch. Disgwylir y byddai'r Cod diwygiedig yn cael ei gyhoeddi tua diwedd y flwyddyn nesaf. |
| 25.40<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO358). Adfyfyriodd yr adroddiad ar nifer o faterion yn ymwneud yn bennaf â PCYDDS. |
| 25.41<br>Adolygiad Effeithlonrwydd Llywodraethu – adroddiad terfynol | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad terfynol yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu (GER), drafft rhagarweiniol o'r hyn a ystyriwyd gan NGC yn ei gyfarfod ym mis Mai 2026 (JCO361). Canolbwyntiodd yr adroddiad yn bennaf ar PCYDDS ond roedd yn berthnasol i PC hefyd.<br><br>CYTUNODD y Cyngor y dylid cyfeirio'r adroddiad i NGC i'w ystyried yn fanwl, gyda chynllun gweithredol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod Tachwedd 2025 y Cyngor. |
| 25.42<br>Adroddiad y Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfodydd y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2025 (JCO362). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | |
| 25.43<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad y cyfarfod Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 21 Mai 2025 (JCO363).<br><br>Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg at y broses o fonitro ymatebion i adroddiadau archwilio mewnol, a oedd yn gweithio'n dda.<br><br>DERBYNIODD y Cyngor:<br>(a) y Gofrestr Risg Gorfforaethol (JCO338);<br>(b) Adroddiad Chwythu'r Chwiban Blynyddol (JCO389).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y cais i ddefnyddio Bevan a Buckland i ymgymryd â'r archwiliadau anstatudol ar gyfer 2024/25. |
| 25.44<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2025 (JCO364).<br><br>YSTYRIODD y Cynghorau'r cynllun datblygu a chadw diwygiedig y Cyngor (JCO391).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor:<br>(a) y protocol drafft ynghylch defnyddio cyfieithu a chyfarfodydd ar-lein/hybrid (JCO390);<br>(b) yr ymagwedd at ddata EDI fel yr amlinellir yn 25.14 o adroddiad y Pwyllgor;<br>(c) Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau'r Cyngor am gyfnod pellach o ddwy flynedd (JCO392);<br>(d) yr argymhelliad y dylid mabwysiadu'r fformat peilot presennol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor fel arfer parhaol o 2025/26 ymlaen. |
| 25.45<br>Adroddiad y Pwyllgor Taliadau | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad anghyfyngedig cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2025 (JCO365).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor Ddatganiad Polisi Cyflog Blynyddol 2023/24 (JCO393). |
| 25.46<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2025 a oedd yn ymwneud yn bennaf â PCYDDS (JCO366). |
| 25.47 | YSTYRIODD y Cyngor y diweddariad ariannol a oedd yn cynnwys Gwasg Prifysgol Cymru (JCO370a |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| Diweddariad ariannol | Adroddodd y DFS ar warged a llif arian cadarnhaol ar gyfer y flwyddyn. Roedd gweithrediadau craidd yn well na'r gyllideb o ganlyniad i arbedion y cyflawnwyd drwy swyddi gwag ac amrywiannau o ran amseru ar incwm cydweithredol a chostau cysylltiedig. Roedd Gwasg PC yn parhau'r duedd i ostwng y diffyg. Roedd gwerthiannau yn well na'r gyllideb gydag arbedion a gyflawnwyd drwy swyddi gwag mewn meysydd cymorth yn cynyddu'r amrywiad cadarnhaol. Roedd disgwyl y byddai PC yn cynhyrchu gwarged bach ar ddiwedd y flwyddyn. |
| 25.48<br>Cyllideb 2025/26 | YSTYRIODD y Cyngor gyllideb arfaethedig 2025/26 (JCO370b), yr oedd y RPC wedi argymell ei chymeradwyo.<br><br>Adroddodd y DFS fod y gyllideb wedi'i pharatoi ar sail fanwl am y flwyddyn a dangosodd parhad o weithrediad y Brifysgol am y flwyddyn. Parhaodd y gyllideb i redeg y Brifysgol fel busnes parhaus gyda gwarged bach a llif arian ar gyfer y flwyddyn.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor Gyllideb 2025/26. |
| 25.49<br>Bwrdd Academaidd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod Bwrdd Academaidd PC a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2025 (JCO371). |
| 25.50<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2025 (JCO374a). |
| 25.51<br>Adroddiad blynyddol yr is-gwmnïau | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad blynyddol yr is-gwmnïau (JCO375). |
| 25.52<br>Gwasg Gregynog | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad gan gyfarwyddwyr Gwasg Gregynog ar y gwaith a wnaed i nodi opsiynau priodol ac ymarferol ar gyfer ei ddyfodol (JCO376).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor argymhelliad y cyfarwyddwyr, mewn egwyddor, y dylid trosglwyddo Gwasg Gregynog a'i hasedau i warchodaeth Gwasg Neuadd Gregynog, yn amodol ar gytundeb ymddiriedolwyr y Neuadd. Nododd mai dim ond yn y cyfnod rhagarweiniol yr oedd y trafodaethau gyda'r ymddiriedolwyr; roedd cymeradwyaeth 'mewn egwyddor' wedi'i cheisio i ganiatáu i'r trafodaethau hynny fynd rhagddynt a'u ffurfioli. |
| 25.53<br>Diweddariad Prevent | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Medr Mawrth 2025 ar fonitro Dyletswydd Prevent (JCO378). |
| 25.54<br>Camau gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad camau gweithredu'r Cadeirydd (JCO380). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.55<br>Datgan Buddiannau | Roedd y datganiadau a ganlyn wedi'u nodi:<br><br>Stuart Robb fel ymddiriedolwr UWRET mewn perthynas ag eitem gyllideb PC.<br><br>Nid wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau eraill yn ystod y cyfarfod. |
| 25.56<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Medi 2025. |

Daeth y cyfarfod i ben am 1.50